# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Cynghorydd I M Spiller**

**Ward: Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr**

**Grŵp: Annibynwyr Sir Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2023**.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| |
|---|
| **<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.<br><br>Rwyf wedi cefnogi preswylwyr fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi ymholiadau niferus gan etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Rwyf hefyd wedi ymdrin yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych chi wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.<br><br>I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor ac ar fy ward.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau i'w gweld drwy ddilyn y ddolen hon:<br><br>Cynghorydd Ian Spiller |
| **<u>Gweithgaredd yn yr Etholaeth</u>**<br><br>Ar ôl cael fy ethol, un o fy nhasgau cyntaf oedd craffu ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd i'w fabwysiadu gan Ben-y-bont ar Ogwr. Mae'r tai ychwanegol yn y cynllun hwnnw yn achosi pryderon sylweddol yn fy nghymuned. Yn ystod cyfarfodydd gyda datblygwr maes y syrcas a gyda'r awdurdod lleol, tynnais sylw at bryderon ynghylch traffig ychwanegol, pwysau ar leoedd mewn ysgolion uwchradd, darparu cyfleusterau chwarae a chymunedol, ac adfer cymunedau, gan amlygu pwysigrwydd diogelu hunaniaeth unigryw pentref Trelales.<br><br>Un o fy amcanion allweddol oedd goruchwylio'r gwaith o wella'r A48 rhwng cylchfan Ewenni a Broadlands. Roedd y cyfarfodydd CDLl â swyddogion yn hynod gynhyrchiol ac |

roedd parodrwydd i wrando ar y pryderon. O ran datblygiadau yn y dyfodol, nododd y CDLl newydd fod angen ymestyn y llwybr teithio llesol o Broadlands i gylchfan Ewenni, gan gyflwyno nifer o fannau croesi diogel ar gyffyrdd ffordd Merthyr Mawr, Fferm Pandy a chylchfan Broadlands i geisio atal damweiniau trasig yn y dyfodol, a gwella cyffordd Broadlands i leihau tagfeydd traffig a gwella llif traffig i'r A48 yn ystod cyfnodau prysur.

Mae gwella rheoli gwrychoedd, arwynebau ffyrdd a sbwriel wedi bod yn amlwg yn fy atgyfeiriadau hyd yn hyn.

**<u>Mentrau a Gweithgareddau Arbennig</u>**

Rwyf hefyd yn un o gynghorwyr cymuned Cyngor Cymuned Trelales. Fel cadeirydd, rwyf wedi bod yn falch o oruchwylio buddsoddiad yng ngwedd ein strydoedd gyda biniau sbwriel, meinciau, a blychau plannu ychwanegol yn cael eu harchebu i wella golwg ein cymuned. Rydym hefyd wedi buddsoddi i uwchraddio'r goleuadau Nadolig ar draws ardal y cyngor cymuned.

Ym Mryntirion rydym wedi cymryd y cam cyffrous o gyfarwyddo uwchgynllun ar gyfer darpariaeth chwarae ar gaeau chwarae Bryntirion yn y dyfodol. Rydym yn ystyried darparu parc sglefrio ac ardaloedd gwyrdd pwrpasol, gan ganolbwyntio ar ddiogelu'r caeau fel ased cymunedol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar brosiect cyffrous i wella a gwarchod y ffynnon hanesyddol yn Nhrelales, gan gyfarwyddo Phil Cope i ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer ein treftadaeth a diddordeb ynddi.

Fel cyngor cymuned, rydym wedi cychwyn trafodaethau â Persimmon Homes i geisio dod â'r sefyllfa o ran ardaloedd sydd heb eu mabwysiadu i ben yn Broadlands, a gyda'u cymeradwyaeth rydym wedi dechrau gosod biniau sbwriel a meinciau mawr eu hangen ar eu tir ar gyfer y trigolion ar ochr orllewinol Broadlands.

**<u>Gweithgareddau/Materion Eraill</u>**

Cynhaliwyd Diwrnod Hwyl Broadlands unwaith eto yn 2022 ar ôl dwy flynedd o ymyrraeth oherwydd COVID-19. Pan wnaethom sefydlu'r diwrnod hwyl yn 2012 ein gweledigaeth oedd creu diwrnod fforddiadwy i'r teulu a oedd yn dod â'n cymuned ynghyd. Yn 2022, daeth busnesau lleol, ynghyd â Chyngor Cymuned Trelales, at ei gilydd i ddarparu'r diwrnod gorau a mwyaf i deuluoedd yn ein cymuned hyd yma.

Unwaith eto, roedd ysgol Maes yr Haul yn gartref i reidiau ffair, hebogyddiaeth ac arddangosfeydd anifeiliaid, offer dringo, crefftau lleol a stondinau cynnyrch. Cynhaliwyd ein gŵyl wyddoniaeth fach gyntaf hefyd yn 2022 gyda phynciau STEM a sgyrsiau podiwm.

**Cynghorydd I M Spiller:** **Dyddiad: 5 Gorffennaf 2023**